Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

Crynodeb Gweithredol

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

The European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

D5800809

© Hawlfraint y Goron 2009
ISBN: 978 0 7504 4907 6

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad: 1

1. Cystadleurwydd, cadwraeth ac ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig: 2

- Echel 1: Gwneud y Gymru wledig yn fwy cystadleuol 2
- Echel 2: Diogelu ein cefn gwlad 3
- Echel 3: Gwella bywydau pobl ac annog arallgyfeirio 5
- Echel 4: Cefnogi prosiectau a mentrau lleol 7

2. Gweithio ar draws yr Echelau 9

3. Cymryd rhan 9

4. Monitro 9

5. Manylion cyswllt 10

6. Geirfa 13

Cyflwyniad

Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 yn rhan o strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (UE) i wneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi. Mae'r Cynllun yn ein helpu i gynnal a mwynhau cefn gwlad unigryw a phrydferth Cymru, ac i elwa arno. Ar yr un pryd, mae'n mynd i'r afael â phroblemau penodol – er enghraifft cyflogau isel – sy'n effeithio ar lawer o bobl mewn ardaloedd gwledig.

Edrych ar ôl yr amgylchedd ac annog datblygiad economaidd cynaliadwy yw dau nod pwysicaf y Cynllun. Ond mae creu swyddi sy'n galw am sgiliau uwch a chefnogi prosiectau cymunedol lleol yn cael llawer o flaenoriaeth hefyd. Y Cynllun hwn yw ail Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, a bydd yn datblygu ar lwyddiant Cynllun 2000-2006.

Mae'r Cynllun yn cynnwys dros £795 miliwn o gyllid am gyfnod o saith mlynedd, gan gynnwys £195 miliwn o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, un o gronfeydd yr UE. Felly, mae gennym arian i sicrhau ei fod yn llwyddiant, i roi syniadau ar waith ac i weld newid er gwell yn ein cymunedau gwledig.

Yn unol â chanllawiau'r UE, rydym wedi sefydlu systemau i fonitro'r Cynllun a sicrhau ein bod yn dysgu o'r arfer gorau ac yn ei rannu â gwledydd eraill Ewrop. Bydd Arsyllfa Wledig Cymru, consortiwm rhwng Prifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth, yn darparu cymorth annibynnol ar gyfer y broses fonitro.

Yn ogystal a hynny, mae Rhwydwaith Cymru Wledig yn gyfrifol am sicrhau bod arbenigedd yn cael ei rannu rhwng pawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Bydd y Rhwydwaith hefyd yn helpu i weithredu a gwerthuso polisi datblygu gwledig a chydlynu'r ffordd y bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo yn lleol, yn genedlaethol, ac yn Ewrop.

Yn annibynnol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cychwyn ar adolygiad eang o Echel 2 – y rhan o'r Cynllun sy'n ymwneud â chadwraeth. Bydd yr Adolygiad Echel 2 hwnnw yn ystyried sut y bydd angen o bosibl i ni addasu'r Cynllun fel ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a diwygiadau amaethyddol yr UE.

Bydd pawb ar eu hennill

Cred nifer o bobl mai dim ond i feysydd fel ffermio a choedwigaeth y mae datblygu gwledig yn berthnasol. Mewn gwirionedd, mae'r Cynllun yn berthnasol i bawb mewn ardaloedd gwledig, ac i BOB agwedd ar fywyd gwledig, nid yn unig busnes a ffermio. Er enghraifft, mae'r Cynllun yn helpu i ddatblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â gwasanaethau newydd, a chreu mwy o gyfleoedd hyfforddi a swyddi.

Yn allweddol, mae'r Cynllun yn cefnogi ac yn croesawu syniadau gan bobl leol sydd am weithredu i wneud eu cymunedau yn lleoedd gwell i fyw. Gallai hynny olygu unrhyw beth, o agor canolfan ailgylchu yn y gymuned i sefydlu cyfleusterau gofal plant, gofal dydd a crèche lleol.

1. Cystadleurwydd, cadwraeth ac ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig:

Mae'r Cynllun yn cynnwys pedair prif ran, sy'n cael eu galw yn Echel 1, 2, 3 a 4:

- Diben pennaf Echel 1 yw cynyddu cystadleurwydd yn yr economi wledig, yn enwedig ym myd ffermio a choedwigaeth. **Cyllideb: £89 miliwn**.
- Diben Echel 2 yw canolbwyntio ar gadwraeth ein tirwedd a'n hamgylchedd, er budd pawb. **Cyllideb: £594 miliwn**.
- Diben Echel 3 yw gwella bywyd bob dydd ac arallgyfeirio ein heconomi wledig, felly mae hon hefyd yn berthnasol i bawb. **Cyllideb: £75 miliwn**.
- Diben Echel 4 yw helpu pobl leol i ddatblygu eu cymunedau eu hunain. **Cyllideb: £32 miliwn**.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion am bedair prif ran (neu Echelau) y Cynllun. Rydym yn nodi enghreifftiau o newidiadau yr ydym ni yn helpu i'w gwireddu, ac yn egluro sut y maent o fudd i bobl y Gymru wledig. Ar y diwedd, ceir manylion cyswllt i chi ddysgu mwy am y cynlluniau sydd o ddiddordeb i chi.

Echel 1: Gwneud ffermio, coedwigaeth a phrosesu bwyd yn fwy cystadleuol

Mae ffermio, coedwigaeth a bwyd yn hanfodol bwysig i economi Cymru, ond gallent fod yn fwy effeithlon a darparu swyddi gwell, a mwy ohonynt. Gallent hefyd ddarparu cynnyrch gwerth ychwanegol i fwy o farchnadoedd nag ar hyn o bryd. Felly, drwy gyfrwng y Cynllun, rydym yn helpu busnesau i wella eu perfformiad, dod o hyd i brynwyr newydd ar gyfer eu cynnyrch ac arallgyfeirio i farchnadoedd newydd.

Drwy gyfrwng Echel 1, rydym yn annog ac yn cefnogi busnesau amaethyddol Cymru i foderneiddio ac arloesi er mwyn iddynt ddod yn fwy cystadleuol ac effeithlon. Rhai o brif themâu'r rhan hon o'r Cynllun yw: mwy o fuddsoddiad i ariannu'r gwaith o foderneiddio, mwy o hyfforddiant, mwy o fentrau ar y cyd, brandio a marchnata gwell, trosglwyddo gwybodaeth, arloesi a chynaliadwyedd.

Yn y pen draw, rydym am weld mwy o fusnesau amaethyddol Cymru yn cynhyrchu cynnyrch o ansawdd uwch, gyda phrosesau ac offer cyfoes, gan ddefnyddio dulliau effeithlon ac ecogyfeillgar. Bydd helpu busnesau i foderneiddio yn creu economi fwy sefydlog, gyda swyddi â chyflogau gwell a swyddi mwy dibynadwy ar gyfer pobl yn y Gymru wledig.

Mae cynlluniau fel Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr eisoes yn sicrhau bod ffermwyr yn canolbwyntio mwy ar y farchnad, ac yn agored i newid. Maen nhw'n darparu hyfforddiant, arbenigedd a gwasanaethau cynghori sy'n addas ar gyfer ffermwyr unigol, ac fel arfer maent yn cael eu hariannu'n llawn neu'n derbyn cymhorthdal. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu teuluoedd i redeg eu ffermydd yn fwy effeithlon, a diogelu eu dyfodol.

Cymorth i bawb

Fodd bynnag, mae ein gweledigaeth o economi wledig fwy sefydlog yn berthnasol i fwy na ffermwyr a pherchnogion coetiroedd yn unig. Rydym yn gweithio gyda chynhyrchwyr a phroseswyr bwyd, proseswyr cynnyrch coed a gweithgynhyrchwyr eraill. Mae'r Cynllun yn bodoli i helpu pawb, gan gynnwys cwmnïau bach ac unigolion sy'n gweithredu fel masnachwyr unigol yn y diwydiannau a'r marchnadoedd hynny.

Mae llawer o'r cynlluniau yn Echel 1 wedi'u cynllunio i helpu busnesau i greu cynnyrch o ansawdd gwell a chodi lefelau sgiliau eu staff. Fel rhan o'r ymdrech hon, mae ffermwyr eisoes wedi gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun Grant Prosesu a Marchnata (GPM). Hefyd, mae busnesau gwledig wedi gwneud cais am filiynau o bunnoedd o nawdd oddi wrth y cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi.

Mae Prosiect Cynhyrchwyr Seidr a Pherai Cymru yn un enghraifft o sut y mae cynlluniau sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cefnogi diwydiannau gwledig. Yn y cyd-destun hwn rydym yn cydweithio â chynhyrchwyr o Gymru i sefydlu brand gwerthfawr Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) ar gyfer seidr o Gymru.

Echel 2: Diogelu ein tirwedd a'n hamgylchedd

Mae edrych ar ôl ein hamgylchedd ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod yn hanfodol i Gymru. Mae rheoli cynaliadwy yn cynnig manteision ar gyfer yr economi amaethyddol a'r gymuned yn gyffredinol drwy wella ein hansawdd bywyd. Mae'n creu swyddi ac yn sylfaen i'n diwydiant twristiaeth. Yn fwy na dim, mae gofalu am yr amgylchedd yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol hirdymor, ac ar gyfer ein gallu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae rheoli'r amgylchedd yn cynnal 117,000 [1] o swyddi llawnamser, hynny yw un mewn chwech o'n gweithlu. Mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yn werth oddeutu £9 biliwn y flwyddyn i Gymru. Mae twristiaeth ddiwylliannol a hanesyddol yn cyfrannu llawer at ein heconomi hefyd. Yn 2005, gwnaeth dros 1.2 miliwn o bobl ymweld â'n henebion.

Am yr holl resymau hyn, mae cadwraeth yn thema ganolog yn y Cynllun Datblygu Gwledig, ac mae cysylltiad agos ag Echel 1, 3 a 4. Mae'n cynnwys ystod o amcanion, gan gynnwys gwella ansawdd dŵr, lleihau llygredd, atal colli bioamrywiaeth a diogelu tirwedd ein ffermdir a'n coedwigoedd.

Mae ffermwyr ac eraill yn gwneud llawer o'r gwaith rheoli amgylcheddol hwn, fel edrych ar ôl tirweddau bregus, a helpu i gynnal cymunedau gwledig ynysig ac agored i niwed. Rydym yn sylweddoli bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gan amlaf ar ben eu llwyth gwaith dyddiol, felly rydym yn cefnogi eu hymdrechion o ran cadwraeth drwy gyfrwng y cynlluniau canlynol.

Tir Gofal a Thir Cynnal - y ddau brif gynllun ffermio - sy'n golygu bod 60% o ffermdir Cymru eisoes wedi'i gynnwys mewn cytundeb amaeth-amgylcheddol. Rydym yn datblygu ar y llwyddiant hwn i annog mwy o ffermwyr i ymuno, naill ai â chynllun lefel mynediad Tir Cynnal neu'r cynllun mwy cynhwysfawr, Tir Gofal. Hyd yma, mae oddeutu 4,500 o ffermydd wedi cael budd o'r cynllun Tir Cynnal.

Mae'r cynllun Tir Mynydd yn helpu ffermwyr yn yr ardaloedd a elwir yn Ardaloedd Llai Ffafriol sy'n cynnwys oddeutu 80% o'r 1.6 miliwn hectar o dir amaethyddol yng Nghymru. Yn benodol, mae Tir Mynydd yn cefnogi cynhyrchu da byw mewn ardaloedd bryniog a mynyddig er mwyn i ni osgoi achosion o adael i dir fynd yn segur a diboblogi ardaloedd gwledig.

Diolch i'r Cynllun Ffermio Organig, mae mwy na 5% o dir amaethyddol Cymru erbyn hyn yn cael ei ffermio gan ddefnyddio dulliau organig, i fyny o ddim ond 0.3% ym 1999. Nod y cynllun poblogaidd hwn yw cynyddu tir ffermio organig a helpu cynhyrchwyr i ddiwallu galw cwsmeriaid am gynnyrch organig.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ariannu dau grant, y Grant Sefydlu Coetir a'r Grant Gwella Coetir -- Coedamaeth/Amgylcheddol, o dan gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae'r grantiau hyn yn cynnig cyngor, cynlluniau ac arian ar gyfer materion fel teneuo coed, mynediad gwell, ffensio, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol a marchnata cynnyrch y coedwigoedd.

Adolygiad Echel 2

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu Echel 2 yn ei chyfanrwydd o ganlyniad i ddau ddatblygiad arwyddocaol: ein dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd a diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod Echel 2 yn dal i fodloni'r amcanion a osodwyd yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, Ffermio i'r Dyfodol a Choetiroedd i Gymru.

Mae'r adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn, a gwrando ar safbwyntiau rhai sydd â buddiant yn y maes, gan gynnwys ffermwyr, sefydliadau amgylcheddol, parciau cenedlaethol a'r gymuned wledig ehangach. Bydd yn adrodd i'r Gweinidogion ar ddyfodol y ddarpariaeth rheoli tir yn 2010. Ar yr un pryd, byddwn yn adolygu pob gweithgaredd a fydd yn cael cymorth o dan Echel 1, 3 a 4 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag unrhyw newidiadau i Echel 2.

Ar wahân, rydym wedi cynnal ymgynghoriad yng Nghymru i fesur yr ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r PAC -- y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel archwiliad iechyd y PAC 2008. Nod y cynigion hyn yw moderneiddio, symleiddio ac ailwampio'r PAC, a dileu unrhyw gyfyngiadau sy'n dal i fod ar ffermwyr er mwyn eu helpu i ymateb i'r galw cynyddol am fwyd.

Echel 3: Gwella ansawdd bywyd ac annog arallgyfeirio

Mae Echel 3 yn effeithio ar bawb sy'n byw mewn cymunedau gwledig, gan ei fod yn ymwneud â phopeth sy'n gysylltiedig ag ansawdd bywyd gwledig. Mae hefyd yn cefnogi prosiectau a mentrau sy'n arallgyfeirio ein heconomi wledig i weithgareddau ar wahân i ffermio. Mae blaenoriaethau Echel 3 yn cynnwys creu swyddi newydd, gosod y sylfeini ar gyfer twf cynaliadwy a bodloni gofynion penodol pob un sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Mae gwella ansawdd bywyd ac arallgyfeirio ein heconomi wledig yn mynd law yn llaw, felly mae Echel 3 yn mynd i'r afael â'r ddau amcan hwn gyda'i gilydd. Drwy fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac annog busnesau newydd ar yr un pryd, rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer cymunedau gwledig mwy cadarn a ffyniannus.

Felly, ar y naill law, mae Echel 3 yn mynd i'r afael â materion cyffredinol fel pobl ifanc yn symud i ffwrdd, diffyg buddsoddi, amddifadedd, cyflogau isel, ac allgáu cymdeithasol. Ar y llaw arall, mae'n ehangu sylfaen economaidd cymunedau gwledig drwy annog creu a datblygu microfentrau gwledig, a chynyddu gweithgareddau twristiaeth.

Yn aml, mae gwneud bywydau pobl yn well yn galw am ddatblygu cryfderau presennol drwy, er enghraifft, ddatblygu busnesau sydd eisoes yn bodoli, datblygu gallu grwpiau a strwythurau lleol a chadw a diweddaru nodweddion naturiol a diwylliannol unigryw ardal. Ond, mae hefyd yn golygu mynd i'r afael â chraidd y broblem o allgáu cymdeithasol, fel diffyg cyfleoedd hyfforddi, gwasanaethau sylfaenol neu amgylcheddau ffisegol gwael a allai ddal llawer o drefi a phentrefi bach yn ôl.

Mae cyfranogiad lleol yn allweddol i lwyddiant Echel 3. Rydym am i bobl leol gydweithio â ni drwy gyfrwng y rhwydwaith o Bartneriaethau Lleol a sefydlwyd o amgylch y Gymru wledig, drwy awgrymu a gweithio ar y prosiectau a fydd fwyaf tebygol o drawsnewid eu bywydau a'u cymunedau. Dyna pam mai dim ond prosiectau a fydd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Partneriaethau Lleol, sy'n cyd-fynd â strategaethau lleol eraill, y byddwn yn eu hystyried.

Cynaliadwyedd a sgiliau

Rydym yn awyddus i gefnogi gweithgareddau sy'n cryfhau gwerth, ac yn ymestyn hyd y tymor twristiaeth, ac annog cyfleusterau gwasanaeth ar y cyd, gan wneud gwell defnydd o gyfleusterau sydd eisoes ar gael i gymunedau.

Mae prosiectau cynaliadwy sydd o fudd i'r amgylchedd yn cael blaenoriaeth uchel. Gallai'r rhain gynnwys dulliau cynhyrchu ynni newydd a rheoli gwastraff ac adnoddau yn well. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol, mae prosiectau cynaliadwy sy'n gwella'r dirwedd, ac sy'n fanteisiol i fywyd gwyllt, hefyd yn atyniadau i dwristiaid ac yn helpu'r economi leol.

Rydym yn awyddus i rannu a datblygu dulliau llwyddiannus sydd wedi gweithio yn y gorffennol. Mae hyfforddi pobl mewn cymunedau gwledig i gael sgiliau newydd yn bwysig i'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru, drwyddi draw. Felly, mae Echel 3 yn cefnogi hyfforddiant lleol er mwyn darparu, er enghraifft, sgiliau bywyd cyffredinol, sgiliau busnes, sgiliau masnachoedd allweddol, sgiliau tir traddodiadol a hyfforddiant i roi sgiliau a hyder i bobl drefnu prosiectau eu hunain.

Mae'r hyfforddiant hwn yn y gymuned yn helpu pobl i sefydlu a rhedeg grwpiau lleol, a datblygu neu ymestyn mentrau sy'n cael eu harwain gan gymunedau. Mae'r agwedd hon ar Echel 3 yn clymu'n agos ag elfen LEADER y Cynllun o dan Echel 4.

Echel 4: Gweithredu'r Dull LEADER

Mae Echel 4 y Cynllun Datblygu Gwledig yn galluogi pobl leol i roi syniadau a phrosiectau lleol ar waith er budd eu cymdeithas a'r amgylchedd. Yn ganolog i Echel 4, mae dull LEADER sy'n galluogi pobl leol i ddatblygu, trefnu a rheoli prosiectau eu hunain, ac yn eu cefnogi wrth iddynt dreialu prosesau a chynnyrch arloesol a allai arwain at ddulliau newydd llwyddiannus o fynd i'r afael â datblygu gwledig.

Mae Echel 4 yn datblygu ar sgiliau a phrofiad cymunedol sydd eisoes yn bodoli, ac mae'n cefnogi rhwydweithiau newydd a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli. Fel y soniwyd uchod, mae cysylltiad agos rhwng Echel 3 a 4 mewn sawl ffordd. Erbyn misoedd cyntaf 2008, roedd y 18 Partneriaeth Leol ledled Cymru wedi anfon cynlluniau ar gyfer eu hardaloedd i Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys cynigion ar gyfer tua 300 o brosiectau o dan Echel 3 ac Echel 4. Mae'r gwaith o gyflwyno Echel 4 ar draws y Gymru wledig yn cael ei arwain gan Grwpiau Gweithredu Lleol yn cynnwys cymysgedd cytbwys o bobl sy'n cynrychioli buddiannau lleol. Maen nhw'n sicrhau bod cynrychiolaeth o lawr gwlad yn gysylltiedig â phob prosiect Echel 4. Mae safbwyntiau Grwpiau Gweithredu Lleol hefyd yn ein helpu i ystyried anghenion lleol fel rhan o strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad.

Dull LEADER

Un o brif nodau'r dull LEADER yw treialu mentrau newydd sy'n cael eu cynnal ar lawr gwlad sy'n helpu i greu cymdeithas, economi ac amgylchedd mwy cynaliadwy. Mae'r dull lleol hwn yn bwysig oherwydd bod profiad ac ymchwil wedi dangos mai un o'r ffyrdd gorau o wella ac adfywio cymunedau yw sicrhau bod pobl leol yn cael cymryd rhan.

Yn ogystal ag annog pobl leol i gymryd rhan, mae'r themâu allweddol yn Echel 4 yn gymharol debyg i'r rheini drwy gydol y Cynllun Datblygu Gwledig. Maen nhw'n cynnwys gwella'r amgylchedd gwledig, cynaliadwyedd, gwasanaethau gwledig, gwrthdroi dirywiad economaidd a chymdeithasol a chefnogi'r gwaith o greu mwy o swyddi, a swyddi sy'n cynnig cyflogau gwell. Rhaid i bob prosiect Echel 4 helpu i gyflawni amcanion tair Echel arall y Cynllun Datblygu Gwledig.

Cydweithio

O dan Echel 4, mae cymorth ar gael i gynyddu'r cydweithio sy'n digwydd rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol ac ardaloedd yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU, neu gyda phartneriaid o Aelod-wladwriaethau eraill Ewrop neu wledydd eraill. Mae cydweithio yn arwain at fwy o rannu syniadau, lledaenu arfer gorau o fewn LEADER, a chynyddu

ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu ardaloedd a sut y gellir mynd i'r afael â hwy wrth gydweithio.

Wrth gydweithio, defnyddir y dull LEADER i ganolbwyntio ar faes gweithgarwch sy'n gymwys o dan Echel 1-3. Gellid canolbwyntio hefyd wrth gydweithio ar:

- feithrin gallu,
- trosglwyddo profiad o ddatblygiadau lleol drwy ee.
- cyhoeddiadau ar y cyd,
- seminarau hyfforddi,
- rhannu staff a'r gwaith o reoli rhaglenni.

Cymunedau bywiog

Os oes gennych syniad a allai arwain at welliannau yn eich cymuned wledig, cysylltwch â'ch Grŵp Gweithredu Lleol. Efallai y byddant yn gallu cynnig cyngor neu gefnogaeth i chi.

Er mwyn gweld enghreifftiau o brosiectau LEADER a ariannwyd o dan gyfnod y rhaglen flaenorol drwy gyfrwng LEADER+ edrychwch ar y ddolen ganlynol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

http://newydd.cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/ruraldevelopment/ruralprogrammeinfosheetdir/?lang=cy

2. Gweithio ar draws yr Echelau

Er eu bod wedi'u rhifo o un i bedwar, mae pob Echel sy'n perthyn i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn bwysig er mwyn helpu i gyflawni ein nod o wella pob agwedd ar fywyd yn y Gymru wledig. Er mwyn iddi ffynnu, rhaid i bobl gael cyfleusterau, hyfforddiant, gwasanaethau a system drafnidiaeth dda. Mae'r sylfeini hyn yn hanfodol ar gyfer lles unrhyw gymuned ac economi leol. Yn yr un modd, mae prosiectau sy'n gwella ein hamgylchedd a'n treftadaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ardaloedd cyfagos.

Felly, o ystyried y cyfraniad y mae pob Echel yn ei wneud i lwyddiant y Cynllun yn gyffredinol, rydym yn annog gweithio ar draws echelau lle bynnag y bo hynny'n rhesymegol. Mae hynny'n golygu, er enghraifft, bod gan rai awdurdodau lleol un Bartneriaeth Leol gyfunol ar gyfer Echel 3 ac Echel 4. Yn yr un modd, cynllun sy'n perthyn yn bennaf i Echel 1 yw Cyswllt Ffermio, ond ar y cyd â'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr, mae'n gwneud cyfraniadau gwerthfawr o dan Echel 2, 3 a 4 hefyd.

Mae gweithio ar draws echelau yn nodwedd benodol o Echel 4, gan fod rhai mentrau lleol sy'n cael cymorth gan Grwpiau Gweithredu Lleol yn aml yn cael effaith ar brosiectau o dan y tair Echel arall. Er enghraifft, gall grŵp o ffermwyr sefydlu prosiect o dan Echel 4 er mwyn llenwi bwlch o ran hyfforddiant lleol nad ydyw yn cael ei gynnwys yn Echel 1. Yn yr un modd, gallai prosiectau amgylcheddol neu ailgylchu bach o dan Echel 2 fanteisio o gael sbardun oddi wrth grwpiau a sefydlwyd o dan Echel 4.

3. Cymryd rhan

Rydym wedi dangos, drwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Gwledig cyntaf (2000-2006), y gallwn ni wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau gwledig. Rydym yn ffyddiog y bydd yr ail Gynllun yn cyflawni hyd yn oed mwy. Felly, os ydych yn byw mewn cymuned wledig, meddyliwch sut y bydd eich tref neu'ch pentref, eich busnes neu'ch ysgol, neu eich clwb neu sefydliad gwirfoddol yn gallu elwa. Mae hwn yn Gynllun ar ein cyfer ni oll, ac rydym am i bob cymuned wledig gymryd rhan a'n helpu i wneud Cymru yn lle hyd yn oed gwell i fyw.

4. Monitro

Rydym yn monitro sut y mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn gweithio drwy gyfrwng Pwyllgor Monitro'r Rhaglen. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, ffermio, busnes, sefydliadau amgylcheddol a sefydliadau sy'n berchen tir a'r sector gwirfoddol. Ei rôl yw gwella ansawdd a gwella'r modd y mae rhaglenni yn cael eu gweithredu, yn ogystal â pharatoi ar gyfer gwerthusiadau canol tymor a therfynol y Cynllun.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n derbyn adroddiadau chwarterol am gynnydd y cynllun. Mae'n asesu cynnydd y mesurau a gweithgareddau sy'n rhan o'r Cynllun yn erbyn amcanion a chanlyniadau. Mae'r Pwyllgor yn cynnal

adolygiadau achlysurol o'r prosesau monitro a gwerthuso ar lefel cynllun ar gyfer Echel 1 a 2, ac ar lefel prosiect ar gyfer Echel 3 a 4.

Mae'r trefniadau Monitro a Gwerthuso yn gweithio i gyfres o safonau'r UE, sy'n cael eu galw yn Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin, wrth fesur cynlluniau a phrosiectau sy'n rhan o'r Cynllun. Mae'r Fframwaith yn llyfryn manwl sy'n darparu fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol yng nghyd-destun gweithredu'r Cynllun i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

5. Manylion cyswllt

Mae Tîm y Rhaglenni Gwledig yn fan cychwyn da i brosiectau lleol. Cysylltwch â hwy drwy anfon e-bost i ruralprogrammes@wales.gsi.gov.uk neu ffonio 01686 613353.

Cydlynwyr Grwpiau Gweithredu Lleol:

Ynys Môn	01248 725700	gerallt@mentermon.com
Pen-y-bont ar Ogwr	01656 815207	delyth.samuel@bridgend.gov.uk
Caerffili	01443 864416	phillv@caerphilly.gov.uk
Sir Gaerfyrddin	01269 871600	deris@mentercwmgwendraeth.org.uk
Ceredigion	01545 572254	eirlysl@ceredigion.gov.uk
Conwy	01492 574506	Rob.Dix@Conwy.gov.uk
Sir Ddinbych	01824 705802	sian.morganjones@cadwynclwyd.co.uk
Sir y Fflint	01824 705802	sian.morganjones@cadwynclwyd.co.uk
Gwynedd	01286 679611	dylanrhysgriffiths@gwynedd.gov.uk
Merthyr Tudful	01685 725289	douglas.reid@merthyr.gov.uk
Sir Fynwy	01873 736032	cath@adventa.org.uk
Castell-nedd Port Talbot	01639 764296	a.j.evans1@neath-porttalbot.gov.uk
Sir Benfro	01834 860965	joana@planed.org.uk

Powys	01982 552224	rebeccaw@powys.gov.uk
Abertawe	01792 636858	paul.relf@swansea.gov.uk
Tor-faen	01633 648329	katie.gates@torfaen.gov.uk
Bro Morgannwg	01446 724333	RRGuy@valeofglamorgan.gov.uk
Wrecsam	01978 298380	allan.forrest@wrexham.gov.uk

Ysgrifenyddiaeth au Partneriaethau Lleol (lle bônt yn wahanol i gysylltiadau'r Grwpiau Gweithredu Lleol):

Ynys Môn	01248 752451	dianetjones@anglesey.gov.uk
Sir Gaerfyrddin	01267 242356	mrphillips@carmarthenshire.gov.uk
Ceredigion	01545 572064	mikes@ceredigion.gov.uk
Sir Ddinbych	01824 708082	mark.dixon@denbighshire.gov.uk
Sir y Fflint	01352 702135	sharon.barlow@flintshire.gov.uk
Sir Fynwy	01633 644644	lizthomas@monmouthshire.gov.uk
Castell-nedd Talbot	01639 686076	h.may@neath-porttalbot.gov.uk
Sir Benfro	01437 776174	gwyn.evans@pembrokeshire.gov.uk
Powys	01597 826762	rebecca.jeremy@powys.gov.uk

Swyddfeydd a rhifau ffôn y cynllun ffermio Tir Gofal:

Y Fenni	01873 794050
Aberystwyth	01970 231950
Bangor	01248 694000
Caerdydd	02920 922250
Llandeilo	01558 694100
Llandrindod	01597 828308
Yr Wyddgrug	01352 918302

Y Drenewydd	01686 613380
Doc Penfro	01646 624660
Penrhyndeudraeth	01766 584200
Abertawe	01792 675700

Swyddfeydd Rhanbarthol Tir Cynnal, Tir Mynydd a'r Cynllun Ffermio Organig:

Caernarfon	01286 674144
Caerfyrddin	01267 225300
Llandrindod	01597 823777

Canolfan Wasanaethau Cyswllt Ffermio**:** 08456 000813

Rhwydwaith Cymru Wledig

ruralnetwork@wales.gsi.gov.uk neu ffonio 01970 653934

I gael copïau pellach o'r ddogfen hon a'r Cynllun Datblygu Gwledig llawn, cysylltwch â:

Uned Rheoli'r Cynllun Datblygu Gwledig
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Yr Hen Ysgol Gynradd
Machynlleth
Powys
SY20 8PE

E-bost: rdp@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.wales.gov.uk/ruraldevelopment
www.cymru.gov.uk/datblygugwledig

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ffurfiau gwahanol os gwnewch gais amdanynt.

6. Geirfa

- Adolygiad Echel 2 – Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Echel 2 y Cynllun i ystyried y newid yn yr hinsawdd a diwygiadau amaethyddol yr UE.
- Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi – unrhyw broses sy'n helpu i wella'r ffordd y mae cynnyrch neu wasanaeth yn cael ei gynhyrchu, ei brisio, ei gynllunio neu ei gludo o'r gweithgynhyrchwr i'r defnyddiwr.
- Archwiliad Iechyd y PAC – cynigion i symleiddio'r PAC.
- Ardaloedd Llai Ffafriol – ardaloedd sy'n anodd eu ffermio o ganlyniad i gyfyngiadau, fel yr hinsawdd, lleoliad neu nodweddion y dirwedd.
- Arsyllfa Wledig Cymru – consortiwm o brifysgolion sy'n cynnal ymchwil a dadansoddiadau annibynnol ar faterion cymdeithasol ac economaidd.
- Coetiroedd Gwell i Gymru – cynllun grant Comisiwn Coedwigaeth Cymru i gefnogi gwaith o safon uchel wrth reoli coetiroedd.
- Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coetiroedd.
- Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (CAEDG) – cronfa a sefydlwyd gan yr UE ym mis Mehefin 2005 i ariannu rhaglenni datblygu gwledig.
- Cynllun Datblygu Gwledig – fframwaith ar gyfer ystod o fesurau a chynlluniau datblygu gwledig sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth y Cynulliad a'r UE.
- Cynllun Ffermio Organig – yn cynnig taliadau i ffermwyr i'w helpu i addasu i ddulliau organig o ffermio a rheoli eu tir mewn dulliau eraill sy'n fanteisiol i'r amgylchedd.
- Cynllun Grant Prosesu a Marchnata (GPM) – yn helpu cynhyrchwyr a ffermwyr i ddod yn fwy cystadleuol, ymateb i alw'r defnyddwyr ac ychwanegu gwerth i'w cynnyrch.
- Cyswllt Ffermio – gwasanaeth integredig o gymorth, gwybodaeth, arbenigedd, hyfforddiant a chyngor i ffermwyr.
- Echel/Echelau – mae'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi'i strwythuro o amgylch pedwar amcan yr UE ar gyfer datblygu gwledig, o'r enw "Echelau".
- Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) – system i hyrwyddo a diogelu cynnyrch bwyd rhanbarthol yr UE. Mae PDO yn cwmpasu'r term a ddefnyddir i ddisgrifio bwydydd sy'n cael eu cynhyrchu, eu prosesu a'u paratoi mewn ardal ddaearyddol benodol gan ddefnyddio gwybodaeth gydnabyddedig.
- Ffermio i'r Dyfodol – Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001 i helpu i sicrhau dyfodol hyfyw i ffermio yng Nghymru.
- Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin– canllawiau'r UE ar gyfer monitro a gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig ledled Ewrop.

- Grantiau Gwella Coetiroedd (Coedamaeth/Amgylcheddol) – yn ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn coetiroedd i greu, gwella a chynnal cynnydd yn nifer ac ansawdd y buddiannau cyhoeddus a gyflawnir.
- Grantiau Sefydlu Coetiroedd – grantiau ar gyfer creu coetiroedd gwell.
- Grŵp Gweithredu Lleol – partneriaethau ar draws sectorau sy'n cael eu sefydlu i hwyluso'r broses o gyflawni gan ddefnyddio'r dull LEADER.
- Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr – yn helpu busnesau fferm cymwys i fodloni rheoliadau trawsgydymffurfio ac amgylcheddol.
- LEADER – dull sy'n seiliedig yn y gymuned i alluogi cymunedau i nodi eu hanghenion a dod o hyd i atebion priodol a chynaliadwy.
- PAC – Polisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.
- Partneriaethau Lleol – partneriaethau o dan arweiniad Awdurdodau Lleol sy'n dyfarnu contractau ar gyfer prosiectau Echel 3 a 4, ac yn eu goruchwylio.
- Pwyllgor Monitro'r Rhaglen - Y pwyllgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro a gwerthuso'r Cynllun Datblygu Gwledig.
- Rhwydwaith Cymru Wledig – yn sicrhau bod arfer da a syniadau yn cael eu rhannu yng Nghymru, a gyda gwledydd eraill Ewrop.
- Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru – strategaeth amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn 2006.
- Tir Cynnal – cynllun sy'n helpu ffermwyr i ddiogelu ardaloedd a nodweddion sydd o bwys amgylcheddol yn gyfnewid am dâl.
- Tir Gofal – cynllun amaeth-amgylcheddol sy'n gwobrwyo ffermwyr am ofalu am nodweddion amgylcheddol, hanesyddol, a diwylliannol ar eu tir.
- Tir Mynydd – cynllun sy'n cefnogi ffermwyr sy'n gweithio mewn tirwedd anodd.

Cyfeiriadau

[1] Bilsborough S and Hill S (2000) Valuing our Environment: The Economic Impact of the Environment in Wales; Cyngor Cefn Gwlad Cymru.